

Ymgeisio am Swydd

Ar gyfer mis Medi 2016 rydym yn chwilio am:

Athro/Athrawes xx

Prif Raddfa Cyflog

Rydym yn awyddus i benodi athro/athrawes ... brwdfrydig, egnïol a chymwys i weithio yn yr Adran gan ddechrau ym mis Medi 2016. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus addysgu ar draws yr ystod gallu yn CA3, ac i Safon TGAU yn CA4. Mae Ysgol Blaenywaun yn ysgol boblogaidd gyda chanlyniadau da iawn. Gofynnir i bob deiliad swydd gael datgeliad manwl boddhaol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Os hoffech sgwrs am delerau neu fanylion pellach, croeso i chi gysylltu â X

Dyddiad cau:....

Yn sgil ymadawriad athro o'r Adran Fathemateg, mae'r ysgol yn chwilio am athro/athrawes i lenwi'r bwlch hwn yn barhaol (ar gyfer ymgeisydd addas) o fis Medi 2016. Byddai'r gallu i addysgu naill ai Bioleg, Cemeg neu Ffiseg yn ddeniadol. Mae'r ysgol hon yn dysgu pob pwnc (ac eithrio Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd ymroddiad at hybu'r iaith Gymraeg yn yr ysgol yn bwysig iawn i'r swydd hon. Mae canlyniadau'r ysgol yn dda iawn gyda dros 70% yn derbyn 5 TGAU (gan gynnwys Cymraeg, Mathemateg a Saesneg) ar raddfa A*-C. Rydym yn ymfalchïo yn adroddiad diweddar Estyn ac mae modd darllen yr adroddiad ar wefan yr ysgol: www.ysgolwych.com

Yn sgil ymadawriad athro o'r Adran Hanes, mae'r ysgol yn chwilio am athro/athrawes i lenwi'r bwlch hwn yn barhaol (ar gyfer ymgeisydd addas) o fis Medi 2016. Byddai'r gallu i addysgu naill ai Iaith, Cymdeithaseg neu Addysg Grefyddol yn ddeniadol. Mae'r ysgol hon yn dysgu pob pwnc (ac eithrio Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd ymroddiad at hybu'r iaith Gymraeg yn yr ysgol yn bwysig iawn i'r swydd hon. Mae canlyniadau'r ysgol yn dda iawn gyda dros 70% yn derbyn 5 TGAU (gan gynnwys Cymraeg, Mathemateg a Saesneg) ar raddfa

A*-C. Rydym yn ymfalchïo yn adroddiad diweddar Estyn ac mae modd darllen yr adroddiad ar wefan yr ysgol: www.ysgolwych.com

Yn sgil ymadawriad athro o'r Adran Ddrama, mae'r ysgol yn chwilio am athro/athrawes i lenwi'r bwlch hwn yn barhaol (ar gyfer ymgeisydd addas) o fis Medi 2016. Byddai'r gallu i addysgu naill ai Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth neu Gelf yn ddeniadol. Mae'r ysgol hon yn dysgu pob pwnc (ac eithrio Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd ymroddiad at hybu'r iaith Gymraeg yn yr ysgol yn bwysig iawn i'r swydd hon. Mae canlyniadau'r ysgol yn dda iawn gyda dros 70% yn derbyn 5 TGAU (gan gynnwys Cymraeg, Mathemateg a Saesneg) ar raddfa A*-C. Rydym yn ymfalchïo yn adroddiad diweddar Estyn ac mae modd darllen yr adroddiad ar wefan yr ysgol: www.ysgolwych.com

Y CYFWELIAD

Sut allwch chi baratoi rhag nerfusrwydd?

Dychmygu eich hunan yn y cyfweliad

Llais

Gwisg

Sut allwch chi baratoi'r atebion?

Dychmygu'r cwestiynau

Sylwer bod modd defnyddio yr un ateb i sawl cwestiwn.

Cyfleu Brwdfrydedd

Buaswn i wrth fy modd yn ...

Fy uchelgais yw ...

Hyderaf y gallwn ...

Rwy'n argyhoeddedig mai un o nodweddion pwysicaf athro da yw ...

Yn fy marn i ...

Rwy'n ymddiddori'n arbennig yn/mewn ...

Cefais flas ar ...

Agwedd arall o'r profiad addysgu a apeliodd ataf yn fawr oedd ...

Credaf yn angerddol yn hawl pob disgybl i ...

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth nad oes ...

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfle a gefais i fireinio fy sgiliau /ddatblygu sgiliau newydd ym maes/ fagu hyder wrth ...

**Nid da lle gellir gwell
Dyfal donc a dyrr y garreg
Nid ar redeg mae aredig
Deuparth gwaith ei ddechrau
Gorau arf, arf dysg**

Croeso i Ysgol Pantyrathro. Rydym ni fel panel yn falch eich bod chi wedi ymgeisio ar gyfer y swydd hon. Felly, fe ddechreuwn ni ar y cwestiynau.

Gwasgwch y botwm sain i glywed y cwestiwn, yna, wedi i chi ateb a phan fyddwch chi'n barod, cliciwch y sleid nesaf i weld a chlywed y cwestiwn nesaf.

[Ceisiwch beidio â dweud 'ym' na chwarae gyda'ch gwallt ayb. ayb...]

Edrychwch arnom ni, aelodau'r panel, a cheisiwch ymddangos yn frwdfrydig a deallus !!!?!]*

GWELER PPT I YMARFER ATEB

MYFYRIO a GWERTHUSO

10 pwynt:

- 1) Siarad yn rhy gyflym?
- 2) Rhy araf?
- 3) Llais main, petrus?
- 4) Dim digon cadarn?
- 5) Gormod o oedi?
- 6) Dim digon o oedi? (h.y. siarad cyn meddwl)
- 7) Heb ateb y cwestiwn yn fanwl?
- 8) Malu awyr / atebion hirwyntog?
- 9) Llygaid yn crwydro (h.y. heb ddal llygad yr ymholwr)?
- 10) Diffyg terminoleg/geirfa addas?

Y WERS

[BETH? SUT? SUT?]

Cyfarch

Bore Da, Ddisgyblion/Bawb
Prynhawn Da, Ddisgyblion/Bawb

Miss Elen Jones ydw I / Mr Dafydd Huws ydw i

Fel y clywoch chi eisoes, fy enw i yw ...

Ac rwyf wrth fy modd i gael eich cwmni chi heddiw.

Dim ond hanner awr sydd gyda ni – felly, heb wastraffu mwy o amser ...

Tynnwch eich llyfrau

Gwrandewch

Edrychwch

Arhoswch am funud

Ymdawelwch

Ga' i eich sylw chi gyd os gwelwch yn dda?

Ar ôl tri – 'tawelwch' os gwelwch yn dda.

Beth yw dy enw di?

Pwy sydd am fentro?

Pwy sy'n cofio?

Pwy sydd am ddyfalu?

Pwy sydd am roi cynnig arni?

Pwy sy'n teimlo'n hyderus?

Pwy sy'n sicr o'r ateb?

Faint ohonoch chi sy'n gwbl sicr o'r ateb?

Tua faint sydd hanner cant y cant yn sicr o'r ateb?

Faint sy'n llai na hanner cant y cant yn sicr o'r ateb?

Pwy sy'n cytuno gyda'r ateb hwnnw?

Pwy sy'n cofio?

Pwy hoffai grynhoi'r prif bwyntiau?

Tybed ydych chi wedi ... ?

Beth dybiwch chi yw hwn ...?

Ymadroddion Defnyddiol	
1) <i>Yn y dechreuad ...</i> Y farn gyffredinol heddiw yw bod ... Wrth ystyried y pwnc hwn, gellid ... Y pwynt cyntaf y dylid ymdrin ag e yw ... Un o'r agweddau pwysicaf ar y mater hwn yw ... Gadewch i ni ddechrau drwy archwilio... Pwynt canolog i'w ystyried wrth drin a thrafod X yw ... Dywedir yn aml fod... Mae'n ffaith wybyddus / adnabyddus fod ... Wrth ystyried y gosodiad uchod yn ofalus, gwelir bod nifer o faterion allweddol yn codi..	6) <i>Pwyslais</i> Hyd yn oed, wrth gwrs, yn wir, ... Nid yn unig ... ond ... yn ogystal / ond .. hefyd... Gellid mynd mor bell â dweud ... Esiampl nodedig... Yn bennaf... Ar y cyfan Yn arbennig... Tanlinellu Pwysleisio Mynnu Cadarnhau Tynnu sylw arbennig at
2) <i>Strwythur</i> Yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn olaf ...*COFIWCH Y COMA!! Yn y lle cyntaf, ... Awgryma'r ddadl gyntaf fod ... mae'r ail ddadl, fodd bynnag, yn awgrymu mai ... I ddechrau... Yr ail ystyriaeth yw ... Nesaf... Yn dilyn ... Wedyn rhaid ystyried ... Mae o leiaf tri phwynt pwysig i'w hystyried yn deillio o'r gosodiad uchod...	7) <i>Cysylltu ac ychwanegu</i> At hyn... Yn ychwanegol... Hefyd... Ymhellach... Ni ddylid anghofio ... Yn ogystal â ... Ar wahân i hynny gellid hefyd ... Gellid dadlau ymhellach gan ddweud Agwedd lawn mor bwysig yw Mae'n bwysig cofio bod...
3) <i>Mewn geiriau eraill</i> Hynny yw... Yn hytrach... Neu ... O'i roi yn syml... O'i roi mewn geiriau eraill O'i aralleirio O'i roi yn blwmp ac yn blaen Gan gofio hyn...	8) <i>Effaith</i> O ganlyniad... Yn dilyn hyn, ... Felly ... Oherwydd hyn... Oblegid hyn... Canlyniad hyn yw ... Yn deillio o hyn

4) <i>Barn</i> Dywed X fod, ...cred X fod, ...awgryma X, ...mynna X fod... ...noda X fod mae X yn argyhoeddedig fod... ...dadl X yw bod hawlia X fod ... Yn ôl X...	9) <i>Pwyso a Mesur</i> Nid oes modd gwadu ... fodd bynnag ... Gellid cytuno i raddau â... Ar y cyfan... Rhaid derbyn / cyfaddef / ... Ni ellir anwybyddu'r ffaith fod ... Yn yr un modd... Er gwaethaf... Tra bod dadl X efallai'n gywir, serch hyn rhaid nodi bod ... Ar yr un pryd dylid nodi ... Serch hyn, dylid ystyried y broblem o bob ongl. Ar y naill law ... ar y llaw arall
5) <i>Egluro</i> Er enghraifft... Esiampl o hyn yw ... Er mwyn egluro hyn,gellid ystyried ... Beth am ystyried ... Dengys yr esiamplau canlynol fod ... Gan gynnwys ...	10) <i>...i gloi</i> Pa gasgliad sy'n deillio o'r ddadl hon?... I grynhoi Yn gryno... Down i'r casgliad fod ... Yn olaf ... Mae'r dadleuon a roddwyd ger bron yn awgrymu/ dangos yn glir fod ... Dengys yr holl ddadleuon fod ... Wedi ystyried y dadleuon hyn rhaid dod i'r casgliad fod ... Wrth dynnu tua'r terfyn... I gloi ...

Berfenw	Amhersonol - Oes modd gweld patrwm?	3ydd unigol cryno - oes modd gweld patrwm?
Agor	Agorir	Egyr
awgrymu	Awgrymir	Awgryma
Cael	Ceir	Caiff
Clywed	Clywir	Clyw
Cymharu	Cymherir	Cymhara
Dangos	Dangosir	Dengys
Dod	Deuir	Daw
Dweud	Dywedir	Dywed
Esbonio	Esbonnir	Esbonia
Gweld	Gwelir	Gwêl
Gwybod	Gwyddys	Gŵyr
Honni	Honnir	Honna
Mynnu	Mynnir	Mynna
Mynd	Eir	Â / Aiff

- 1) Mae'r bachgen yn gweld yr ateb.
- 2) Mae'r ferch yn darllen llyfr.
- 3) Mae'r athrawes yn cymharu cwestiynau.
- 4) Mae'r arbrawf yn awgrymu ...
- 5) Mae'r bardd yn dangos pwysigrwydd rhyfeddod.
- 6) Mae'r arolygwr yn chwilio am enghreifftiau o arfer dda.
- 7) Mae'r tiwtor yn mynnu tystiolaeth o'r Cwricwlwm Cymreig.
- 8) Mae'r llywodraeth yn pwysleisio gwerth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.